# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS DIOGELU'R CYHOEDD

## 17 MEDI 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P.M. Hughes (Aelod o’r Cabinet).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
N. Daniel, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio;
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu’r Amgylchedd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 9:00yb - 9:30yb**

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 2 MEDI 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2021, gan ei fod yn gywir.**

### 3. GORFODI CYNLLUNIO - PROTOCOL CAU ACHOS

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r protocol a fyddai'n cynorthwyo â'r gwaith o gau hen achosion gorfodi cynllunio.

Nododd yr Aelod Cabinet fod adolygiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Cynllunio'r Cyngor wedi tynnu sylw at yr ôl-groniad sylweddol o gwynion nad ydynt wedi eu datrys yng ngwasanaeth Gorfodi Rheolau Cynllunio Sir Gaerfyrddin.

Dywedwyd bod gwaith ymchwil i ddeall natur yr ôl-groniad hwn wedi nodi'r posibilrwydd o gau nifer sylweddol o achosion oherwydd ystyrir nad yw'n briodol mwyach a/neu'n ymarferol i ymchwilio ymhellach i'r cwynion. Er mwyn pennu pa achosion a fyddai'n cael eu cau, roedd yr adroddiad yn cynnwys Protocol Cau Cais arfaethedig i'w gymeradwyo.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd y terfynau amser a nodwyd yn adran 2(b) o'r protocol arfaethedig yn unol ag adran 171B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi Awdurdod i gymryd camau gorfodi:-

- pedair blynedd pan fo'r achos yn cynnwys naill ai datblygiad gweithredol neu newid defnydd adeilad yn breswylfa sengl; a
- deng mlynedd ar gyfer pob achos arall o dorri rheolaeth gynllunio.

Er eglurder, gofynnodd yr Aelod Cabinet am ddiwygio adran 2(b) i ddarllen:-

*‘Yn unol ag adran 171B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, achosion sydd wedi cael imiwnedd rhag camau gorfodi oherwydd bod cyfnodau o 4/10 mlynedd wedi dod i ben pryd nad oes hysbysiad wedi'i gyflwyno o'r blaen.’*

**Penderfynwyd cymeradwyo'r protocol i gefnogi cau hen achosion gorfodi cynllunio, fel y nodir yn yr adroddiad, yn amodol ar ddiwygio adran 2(b) i ddarllen:**

> **‘2(b) - Yn unol ag adran 171B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, achosion sydd wedi cael imiwnedd rhag camau gorfodi oherwydd bod cyfnodau o 4/10 mlynedd wedi dod i ben pryd nad oes hysbysiad wedi'i gyflwyno o'r blaen.’**

| | |
|---|---|
| ______________________________ | __________________ |
| **AELOD O’R CABINET** | **DYDDIAD** |